**Gwasanaeth Archwilio Meddygol**
**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)**
**Hysbysiad Preifatrwydd**

## 1. Cyflwyniad

Mae GIG Cymru yn gartref i sawl sefydliad iechyd, sy’n cynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae PCGC yn darparu llawer o wasanaethau ar sail Cymru Gyfan, gan gynnwys y Gwasanaeth Archwilio Meddygol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr wybodaeth hon, mae’n rhaid i chi gysylltu â’r Swyddog Archwilio Meddygol trwy anfon e-bost at medical.examiner@wales.nhs.uk

Cyhoeddwyd y daflen hon gan dîm Llywodraethu Gwybodaeth PCGC i gynorthwyo a hwyluso'r broses Archwilio Meddygol yn GIG Cymru.

## 2. Eich hawliau

Mae’r daflen hon yn egluro’ch hawliau o dan ddeddfwriaeth newydd, sef y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae’n pwysleisio'r angen i PCGC sicrhau ein bod yn egluro sut y mae gwybodaeth amdanoch chi a’r ymadawedig yn cael ei defnyddio ar gyfer tasgau a gyflawnir gan y Gwasanaeth Archwilio Meddygol.

Bydd yr wybodaeth a roddwn ichi am sut y byddwn yn defnyddio’r wybodaeth hon:

- yn gryno, yn hawdd ei darllen ac yn hygyrch
- wedi’i hysgrifennu’n glir ac yn syml ac
- yn rhad ac am ddim.

## 3. Pa gyfreithiau ydyn ni’n eu dilyn?

Mae’r gyfraith yn penderfynu sut y gallwn ddefnyddio’r wybodaeth at y dibenion fel y’u rhestrir isod a swyddogaethau’r Gwasanaeth Archwilio Meddygol. Dyma restr o’r cyfreithiau rydym yn eu dilyn sy’n caniatáu inni ddefnyddio’ch gwybodaeth:

- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Bil Diogelu Data'r DU
- Y Ddeddf Hawliau Dynol
- Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin
- Y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron
- Deddf y Comisiwn Archwilio
- Y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol
- Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009

Mae Gwasanaeth Archwilio Meddygol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn rheoli'r prosesau sy'n cynnwys craffu ar bob marwolaeth nad yw'n cael ei chyfeirio'n uniongyrchol at Grwner. Mae'n cadw ac yn defnyddio'ch gwybodaeth a chofnodion yr ymadawedig.

## 4. Pa fathau o wybodaeth bersonol rydym yn eu defnyddio ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Meddygol?

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn gofyn am yr wybodaeth a restrir isod i graffu ar achosion:

- Demograffeg cleifion.
- Cofnodion meddygol (gwybodaeth ar bapur a gwybodaeth electronig).
- Dyddiad, amser a lleoliad marwolaeth.
- Dyddiad ac amser unrhyw apwyntiadau profedigaeth neu gofrestrydd.
- Amlosgi neu gladdu (os yw'n hysbys).
- Cyswllt cyntaf ar gyfer perthynas agosaf.
- Unrhyw agweddau penodol ar yr achos e.e. rhyddhau ar frys, rhoi organau, teulu'n gofyn am archwiliad post-mortem.
- Enw a manylion cyswllt yr Ymarferydd Cymwys fu'n Bresennol.

Mae PCGC yn darparu adroddiadau rheolaidd hefyd â data dienw/anadnabyddadwy ar berfformiad ac ystadegau ar gyfer:

- Byrddau Iechyd
- Gwasanaethau Crwner
- Gwasanaethau Cofrestru
- Llywodraeth Cymru
- Archwilydd Meddygol Arweiniol Cenedlaethol

## 5. Pam y caiff gwybodaeth ei phrosesu?

Mae angen yr wybodaeth yr ydym yn ei chasglu a'i phrosesu i alluogi'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Nodau'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yw:

- Cryfhau mesurau diogelwch ar gyfer y cyhoedd

  - Darparu craffu cadarn, systemig ac annibynnol ar bob marwolaeth na chyfeirir yn uniongyrchol at y Crwner
  - Darparu dadansoddiad deallus ac adrodd ar lefel system ar faterion posibl a ganfuwyd yn ystod craffu
  - Sicrhau bod y marwolaethau cywir yn cael eu cyfeirio at Grwner.
- Gwella ansawdd ardystio marwolaeth trwy wneud y canlynol:
  - Cytuno ar achos marwolaeth yn seiliedig ar graffu ar gofnodion iechyd perthnasol a rhyngweithio â meddygon sy’n bresennol a naill ai cwblhau’r Dystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth yn uniongyrchol neu ddarparu cyngor arbenigol i ymarferydd addas sy’n bresennol i wneud hynny
- Osgoi gofid diangen i’r rhai mewn profedigaeth trwy:
  - Ateb cwestiynau am achos ardystiedig y farwolaeth neu ofal a roddwyd, neu sy'n codi o oedi annisgwyl wrth gofrestru marwolaeth

Er mwyn cyflawni’r nodau, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau:

- Craffu ar bob marwolaeth nad yw’n cael ei chyfeirio’n uniongyrchol at Grwner er mwyn nodi meysydd sy’n peri pryder. Gwneir hyn trwy broses tri cham:
  - Adolygu Nodiadau Achos
  - Trafodaethau gyda’r Ymarferydd Cymwys sy’n Bresennol / Tîm Clinigol
  - Trafodaethau gyda’r rhai mewn profedigaeth (Perthynas Agosaf fel rheol)
- Adolygu pob Tystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth a chyhoeddi cadarnhad o achos marwolaeth i ganiatáu cofrestru marwolaeth
- Cyfeirio marwolaethau sy'n gofyn am ymchwiliad Crwner i’r Gwasanaeth Crwner
- Cyfeirio achosion lle mae craffu ar y farwolaeth yn awgrymu bod ymchwiliad pellach i’r gofal a roddwyd yn ofynnol at sefydliad gofal perthnasol
- Darparu dadansoddiad ac adroddiadau i randdeiliaid perthnasol
- Darperir y gwasanaeth gan Archwilwyr Meddygol annibynnol wedi’u hyfforddi, gyda chefnogaeth Swyddogion Archwilio Meddygol, gan ddefnyddio methodoleg safonol

## 6. Rhannu eich gwybodaeth

Ni fyddwn byth yn gwerthu’ch gwybodaeth ac ni fyddwn yn ei rhannu heb yr awdurdod cyfreithiol priodol.

Dosbarthir yr wybodaeth ar ffurf ystadegau er mwyn helpu i nodi tueddiadau, ystadegau a pherfformiad Byrddau Iechyd.

## 7. Diogelwch eich Gwybodaeth

Mae Gwasanaeth Archwilio Meddygol PCGC yn cymryd cyfrifoldeb am ofalu am wybodaeth bersonol o ddifrif. Ni waeth a yw'r wybodaeth honno ar ffurf electronig neu ar bapur.

Rydym hefyd yn cyflogi rhywun sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth a'i chyfrinachedd er mwyn sicrhau:

- bod eich gwybodaeth wedi ei diogelu;
- cyngor ar ddefnyddio data'n ddiogel a chyfrinachol; a
- rhoi gwybod ichi sut y caiff ei defnyddio.

Mae disgwyl i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant ynghylch cyfrinachedd yn rheolaidd.

Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr er mwyn gallu diogelu'r wybodaeth sydd wedi ei rhoi i PCGC a'i hadrannau. Mae'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn GIG Cymru yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â thrin gwybodaeth adnabyddadwy, ni waeth pa adran mae'n gweithio ynddi. Yn benodol, data sy'n ymwneud â'r unigolyn ymadawedig a'r rhai mewn profedigaeth gan gynnwys unrhyw nodiadau achos, gwaith papur a dogfennau cysylltiedig ag ymchwiliadau penodol.

## 8. Beth yw'ch hawliau?

Bydd PCGC yn sicrhau eich bod yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth sy'n ddarostyngedig i'r broses sy'n ymwneud â chi a'r ymadawedig sy'n ddarostyngedig i'r achos penodol. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o ba wybodaeth sydd gennym.

Mae gennych yr hawl i:

- wybod sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio; ac
- i gael copïau o'r wybodaeth.

Os ydych chi am wybod rhagor am yr hawliau sydd gennych i weld eich data, cysylltwch â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC.

Mae PCGC yn ceisio ymateb i bob cais i gael mynediad at wybodaeth cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid i'r sefydliad ymateb i'ch cais cyn pen 40 diwrnod ar ôl ei dderbyn, ond gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r cais yn gymhleth ac yn fawr. Gan fod y cais yn cynnwys cofnodion yr ymadawedig, yna mae'r Ddeddf Mynediad at Gofnodion Iechyd (1990) yn berthnasol ac ar hyn o bryd mae ein hadran ceisiadau cofnodion iechyd yn hwyluso'r broses hon.

Mae'r hawliau a eglurir uchod yn ymwneud â'r wybodaeth sy'n ymwneud â'ch achos a hwyluswyd o fewn y Gwasanaeth Archwilio Meddygol a gynhelir gan PCGC.

Adolygir eich cais i sicrhau bod yr wybodaeth y gwnaed cais amdani yn wybodaeth bersonol a bod yr wybodaeth honno yn ymwneud â'ch achos. Bydd yn amlwg bod yr wybodaeth yn bersonol fel arfer, ond bydd PCGC yn cysylltu â chi os nad yw'n glir.

### Oes rhaid i mi dalu ffi?

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn darparu'r wybodaeth yn rhad ac am ddim.

Fodd bynnag, gallem godi ffi fach. Byddwn yn codi ffi os yw'r cais yn un mawr neu'n un sydd wedi ei gyflwyno sawl gwaith.

Bydd yn dibynnu ar faint y bydd yn costio i ddarparu'r wybodaeth. Os ydych chi eisiau gwybod rhagor am y ffioedd a godir am wybodaeth, cysylltwch â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC.

### Sut gaiff yr wybodaeth ei darparu?

Caiff yr wybodaeth ei darparu ar ffurf sy'n hawdd ei defnyddio ar system arall os yw'n electronig (e.e. ffeil Microsoft Word neu Excel). Fel arall, caiff ei darparu ar bapur.

## 9. Caniatâd (Cydsyniad)

Er mwyn sicrhau bod y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon, mae'n bosibl y bydd PCGC yn gofyn am eich caniatâd i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn angenrheidiol os yw'r defnydd at sail gyfreithiol o dan reolaethau cyfredol megis Erthygl 6 (Cyfreithlondeb Prosesu) ac Erthygl 9 (Prosesu Categorïau Arbennig o Ddata Personol) yn cynnwys y canlynol:

Erthygl 6

a) Mae'r testun data wedi rhoi cydsyniad clir i brosesu'r data personol hynny at un diben penodol neu fwy;
c) Mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi;
d) Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn buddiannau hanfodol y testun data neu fod dynol arall;
e) Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn y rheolwr;
f) Mae angen prosesu at ddibenion y buddion cyfreithlon y mae'r rheolwr neu drydydd parti yn eu dilyn.

Erthygl 9

(a) Mae'r testun data wedi rhoi caniatâd penodol i brosesu'r data personol hynny at un neu ragor o ddibenion penodedig, ac eithrio pan fydd cyfraith

yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth yn datgan nad oes modd i destun data godi'r gwaharddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1;

(h) Mae angen prosesu at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu gallu'r gweithiwr i weithio, diagnosis meddygol, darparu gofal iechyd neu gymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol;

(i) Mae angen prosesu am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol, ar sail yr Undeb neu gyfraith Aelod-wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddid y testun data, yn enwedig cyfrinachedd proffesiynol;

Mae'n rhaid eich bod wedi rhoi caniatâd (cydsyniad) o'ch gwirfodd ac nad ydych wedi bod dan bwysau i wneud hynny. Mae'n rhaid bod hyn wedi ei wneud mewn modd eglur, ac mae'n rhaid eich bod yn ymwybodol o sut y caiff eich gwybodaeth ei thrin.

### Rhoi gwybod ichi a chael eich cydsyniad

Os byddwn yn gofyn am eich caniatâd, cewch chi wybodaeth am hyn ar ffurf yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Bydd hyn yn egluro beth y mae gofyn ichi roi caniatâd ar ei gyfer. Bydd rhaid i PCGC brofi ei bod wedi rhoi gwybodaeth ichi, a'ch bod wedi llwyr ddeall beth roddoch chi ganiatâd ar ei gyfer.

Os gofynnir am ganiatâd, gallwch roi eich cydsyniad mewn sawl ffordd. Gallwch ei roi yn ysgrifenedig, trwy dicio blwch ar wefan, trwy ddewis opsiynau ar ap ffôn symudol, neu drwy unrhyw weithred arall sy'n dangos eich bod wedi derbyn y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio.

## 10. Beth am yr hawl i gywiro neu i ddileu gwybodaeth anghywir?

Mae gennych yr hawl i ofyn i PCGC gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth.

Mae'n rhaid i PCGC sicrhau ei bod yn dileu neu'n cywiro unrhyw wybodaeth y profwyd ei bod yn anghywir neu'n anghyflawn.

### Cadw eich gwybodaeth

Ni fyddwn ond yn cadw gwybodaeth am gyhyd ag y bo angen. Cedwir cofnodion yn unol ag atodlen cadw a gwaredu Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn pennu'r cyfnod lleiaf o amser y dylid cadw cofnodion.

Mae'r rhain yn cynnwys (er enghraifft):

Ffeiliau personél - 6 mlynedd ar ôl gadael y gwasanaeth
Cofnodion Gwyliau Blynyddol - 2 flynedd
Cofnodion yr Ymadawedig - 10 mlynedd (dynion) 25 mlynedd (menywod)

## Gwneud cwyn

Os hoffech wneud cwyn ynghylch unrhyw broblemau sydd wedi codi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, cysylltwch â:

Tim Knifton
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth
tim.knifton@wales.nhs.uk

Os ydych chi'n dal yn anfodlon yn dilyn eich cwyn, mae gennych yr hawl i wneud cwyn i:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Yr Ail Lawr
Tŷ Churchill,
17 Ffordd Churchill,
Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk
Gwefan: www.ico.org.uk

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r daflen hon, neu os oes unrhyw gwestiynau gennych am yr wybodaeth hon, cysylltwch â Rheolwr y Rhaglen Genedlaethol:

Andrew Evans
E-bost: Andrew.evans@wales.nhs.uk
Ffôn: 02920 904080

Neu'r Rheolwr Prosiect:

Bethan Rees
E-bost: Bethan.rees12@wales.nhs.uk
Gwefan: https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaeth-archwilio-meddygol/